# Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Prif Negeseuon a Chamau Gweithredu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (telegynhadledda) | | | **Dyddiad** | 12.12.2018 |
| **Rhif y Cyfarfod** | 14 | **Dechrau Amser** | 1:00 | **Diwedd Amser** | 3:00 |
| **Yn bresennol** | Louise George (Llywodraeth Cymru – Cadeirydd), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynghorydd), Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau SAC – cynghorydd i'r Grŵp Llywio), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Eve Read (Dŵr Cymru), Yolanda Arjona (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru – Cadeirydd), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro) | | | | |

| Rhif | Eitem Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso a chyflwyniadau |
| 2 | Cynllun Gweithredu 2019–20 – dechrau ystyried camau gweithredu posibl |
| 3 | Strwythur a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig |
| 4 | Ffeithlun ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig |
| 5 | Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf. |

## Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAMSG) yn darparu cydlynu strategol ar gyfer rheoli'r holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym moroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn darparu cyngor, canllawiau ac arweiniad cyfunol i'r awdurdodau sy'n rhan o'r gwaith o weithredu i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'n hyrwyddo'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, ac mae wedi derbyn y dasg o godi proffil y gwaith o reoli'r ardaloedd a chynyddu cefnogaeth awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach ledled Nghymru.

Mae aelodau'r MPAMSG yn dod o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio ei 14eg cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2018 drwy gyfleuster telegynadledda. Mae prif negeseuon a chamau gweithredu'r cyfarfod yn y ddogfen hon. Mae aelodau'r MPAMSG yn gyfrifol am rannu negeseuon cyson â'u gwahanol rwydweithiau.

Os ydych am drafod unrhyw rhai o'r eitemau sydd ar yr agenda'n fanylach, cysylltwch â'ch arweinydd sector. Os oes angen manylion eich arweinydd sector arnoch, cysylltwch â'r blwch negeseuon e-bost Gweinidogion ar gyfer y Môr a Physgodfeydd. (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales)

## Prif Negeseuon a Chamau Gweithredu

Eitem 2: Cynllun Gweithredu 2019–20 – dechrau ystyried camau gweithredu posibl

| Prif negeseuon | Camau gweithredu |
|---|---|
| Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio y dylid rhoi sgôr i'r camau gweithredu canlynol i nodi eu blaenoriaeth:<br><br>• Datblygu Cynllun Gweithredu i leihau nifer adar y môr sy'n cael eu dal fel sgil-ddalfa yn nyfroedd y DU.<br>• Prosiect Sbwriel Cymunedol<br>• Cyflawni Cam 3 o'r Prosiect Gweithgareddau Anhrwyddedadwy<br>• Lleihau’r aflonyddu ar famaliaid ac adar y môr<br>• Prosiect peilot ar bori ar forfeydd hela ac ansawdd dŵr<br>• Effeithiau sbwriel y môr ar nodweddion ardaloedd morol gwarchodedig<br><br>Gofynnodd aelodau'r Grŵp Llywio am ragor o fanylion ynghylch y Prosiect Sbwriel Cymunedol a'r camau posibl i leihau’r aflonyddu ar famaliaid ac adar y môl cyn rhoi sgôr i'r camau gweithredu hyn i nodi eu blaenoriaeth.<br><br>Ystyriwyd bod cam gweithredu a awgrymwyd gan yr RSPB ynglŷn â chynllunio bioddiogelwch ar gyfer cytrefi adar y môr yn rhy benodol i safle ar gyfer Cynllun Gweithredu ar lefel rhwydwaith. Fodd bynnag, cytunodd y grŵp y byddai'n ddiddorol gweld allbynnau a chanlyniadau'r prosiect, ac y dylid annog yr RSPB i rannu gwybodaeth am y prosiect fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | Bydd Alison yn darparu rhagor o wybodaeth am y Prosiect Sbwriel Cymunedol a'r gweithredu posibl i leihau'r aflonyddu ar famaliaid ac adar y môr. |

Eitem 3:Strwythur a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

| Prif negeseuon | Camau gweithredu |
|---|---|
| Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio ar y strwythur a'r cynnwys arfaethedig ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan nodi | |

| | |
|---|---|
| y byddent yn gwahodd gwybodaeth gan randdeiliaid eraill am faint y gwaith ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael ei wneud yng Nghymru. | |

Eitem 4:Ffeithlun ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

| **Prif negeseuon** | **Camau gweithredu** |
|---|---|
| Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio i gymeradwyo'r ffeithlun ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau eraill gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd. | |

Eitem 5:Unrhyw faterion arall

| **Prif negeseuon** | **Camau gweithredu** |
|---|---|
| Nid oedd unrhyw faterion eraill. | |